# Dywedwch Wrthym Unwaith



CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

## Dywedwch Wrthym Unwaith

Pan fydd rhywun yn marw, bydd angen gwneud llawer o bethau, a hynny ar adeg pan fyddwch yn teimlo fel gwneud dim, mae'n debyg. Un o'r pethau hynny yw cysylltu ag adrannau'r llywodraeth a gwasanaethau'r cyngor lleol i roi gwybod am y farwolaeth. Mae'r gwasanaeth Dywedwch Wrthym Unwaith yn eich galluogi i wneud hyn ar un tro. Nid oes cost am y gwasanaeth hwn.

## Sut mae defnyddio'r gwasanaeth?

Ar ôl i chi gofrestru'r farwolaeth, bydd y Cofrestrydd yn gofyn os ydych yn dymuno defnyddio'r gwasanaeth Dywedwch Wrthym Unwaith. Os ydych yn dymuno gwneud hynny, bydd y Cofrestrydd yn trefnu eich bod yn derbyn rhif cyfeirnod unigryw. Unwaith y byddwch wedi derbyn y cyfeirnod hwn bydd angen i chi gysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau:

Ffôn: **0800 085 7308** (Llun i Gwener, 8yb i 6yp). Gallwch siarad ag ymgynghorydd yn Gymraeg neu'n Saesneg. Mae gwasanaeth cyfieithydd hefyd ar gael. Galwadau am ddim o linell ffôn BT, ond gall darparwyr eraill godi tâl arnoch.

Ar-lein: Ewch i **www.gov.uk/tell-us-once**

## Pwy fydd yn derbyn yr wybodaeth?

Os byddwch yn penderfynu defnyddio'r gwasanaeth, gall Dywedwch Wrthym Unwaith roi gwybod i'r sefydliadau canlynol am y farwolaeth ar eich rhan:

**Adran Gwaith a Phensiynau:**
Y Gwasanaeth Pensiwn, Anabledd a Gofalwyr
Canolfan Byd Gwaith

**Gweinyddiaeth Amddiffyn, Personél Gwasanaeth ac Asiantaeth Cyn-Filwyr:**
Cynllun Pensiynau Rhyfel

**Cyllid a Thollau EM:**
Budd-dal Plant
Credydau Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith
Treth Bersonol

**Gwasanaeth Pasbort a Hunaniaeth**

**Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau**

**Cynghorau Lleol:**
Swyddfa Budd-dal Tai
Swyddfa Budd-dal Treth y Cyngor
Tai Cyngor
Treth y Cyngor
Llyfrgelloedd
Bathodynnau Glas
Gwasanaethau Oedolion
Gwasanaethau Plant
Casglu taliadau am wasanaethau'r Cyngor
Gwasanaethau Etholiadol

## Beth fydd y sefydliadau yn ei wneud gyda'r wybodaeth?

Bydd unrhyw wybodaeth yr ydych yn ei roi yn cael ei drin yn ddiogel ac yn gyfrinachol. Bydd y sefydliadau yn defnyddio'r wybodaeth i ddiweddaru cofnodion; i ddod â gwasanaethau budd-daliadau a chredydau i ben fel y bo'n briodol; ac i ymdrin ag unrhyw faterion tebyg eraill. Mae'n bosib y byddant yn defnyddio'r wybodaeth mewn ffyrdd eraill hefyd, ond dim ond os yw'r gyfraith yn caniatáu hynny.

## Gwybodaeth y bydd ei hangen arnoch i ddefnyddio'r gwasanaeth

Er mwyn i chi fanteisio i'r eithaf ar y gwasanaeth, byddwch angen yr wybodaeth ganlynol am y person sydd wedi marw:



- rhif Yswiriant Gwladol
- dyddiad geni
- manylion unrhyw fudd-daliadau a gwasanaethau roeddent yn eu derbyn
- eu tystysgrif marwolaeth
- eu trwydded yrru neu rif y drwydded yrru
- eu pasbort neu rif y pasbort a thref / gwlad eu genedigaeth

## Byddwch hefyd angen manylion cyswllt:

- eu perthynas agosaf
- unrhyw ŵr, gwraig neu bartner sifil sy'n dal yn fyw
- y person sy'n delio â'u hystâd

Mae'n rhaid cael caniatâd y bobl a restrir uchod os ydych yn mynd i roi gwybodaeth amdanynt.

## Perthynas Agosaf

Os mai chi yw perthynas agosaf yr ymadawedig (drwy waed neu briodas), mae'n bosib y bydd newidiadau yn y budd-daliadau y gallwch eu hawlio. Felly gofalwch bod eich rhif Yswiriant Gwladol chi a/neu'ch dyddiad geni gennych pan fyddwch yn defnyddio'r gwasanaeth Dywedwch Wrthym Unwaith.

Os nad chi yw'r berthynas agosaf, na'r person sy'n delio ag ystâd yr ymadawedig (y person sy'n didoli eu heiddo a'u harian) gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth Dywedwch Wrthym Unwaith yr run fath cyn belled â bod gennych ganiatâd i roi'r manylion ac i weithredu ar eu rhan.

## Preifatrwydd

Mae'r gwasanaeth Dywedwch Wrthym Unwaith wedi ymrwymo i sicrhau bod eich gwybodaeth wedi ei diogelu.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda Cyngor Gwynedd ar **01766 771000** neu drwy ymweld â **www.gwynedd.gov.uk/DWU**